# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 13 Gorffennaf 2005

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Prif Weinidog*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint yw cost y sioe deithiol i roi cyhoeddusrwydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru a lansiwyd gennych yn ddiweddar. (WAQ43744)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar drafodaethau gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg am strategaeth genedlaethol ar sail cynllunio ieithyddol i greu twf ieithyddol o ran yr iaith Gymraeg. (WAQ43757) **W**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa gyfarwyddiadau y mae'r Gweinidog wedi'u rhoi i'w adran a'r WDA i flaenoriaethu prosiectau mewnfuddsoddi newydd yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr ar ôl y tri chyhoeddiad diweddar ar golli swyddi/cau gweithfeydd. (WAQ43752)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa bolisi a chanllawiau strategol y mae'r Gweinidog wedi penderfynu eu rhoi i'r adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth newydd fwy/unedig er mwyn gwella safle Cymru yng nghyngrair mewnfuddsoddi'r DU. (WAQ43753)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y grwp llywio ar addysgu ac arholi drama, yn dilyn adroddiad Clywch. (WAQ43754)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** Gan gyfeirio at y grwp llywio ar addysgu ac arholi drama, yn dilyn adroddiad Clywch, a wnaiff y Gweinidog nodi a) sawl gwaith y mae'r grwp wedi cyfarfod b) pwy yw ei aelodau c) pryd mae ei gyfarfod nesaf ch) pa gynnydd a wnaed yng ngwaith y grwp. (WAQ43755)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r dadansoddiad cost a budd a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar effaith cynnydd a ragwelir mewn cyflogau ar gyfer athrawon ar setliad Refeniw Llywodraeth Leol. (WAQ43756)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd posibl o finiau Dolav i leddfu problemau gyda'r Cynllun Stoc Trig mewn rhannau o Gymru. (WAQ43745)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn Datganiad Cabinet y Gweinidog ar 1 Gorffennaf, pa ymateb a gafodd i'w llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon; a pha sicrwydd a gafodd y bydd fersiynau Cymraeg o'r ffurflenni a'r canllawiau ar gael ar gyfer trwyddedu. (WAQ43746)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau y gall pobl gael ffurflenni cais Cymraeg ar gyfer trwyddedau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. (WAQ43747)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru'r adrannau a fydd yn gweithio o swyddfeydd newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn etholaeth Conwy. (WAQ43748)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Chyngor Sir Conwy ynghylch datblygu swyddfeydd newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn etholaeth Conwy. (WAQ43749)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Chyngor Sir Conwy o ran anghenion tai ac anghenion eraill staff a adleolir yn etholaeth Conwy. (WAQ43750)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** Faint o'r £680m a gaiff ei wario ar y cynllun ysgolion estynedig yn Lloegr y bydd Cynulliad Cymru yn ei dderbyn o ganlyniad i fformiwla Barnett. (WAQ43751)